

CHWILIO

Moli'n cwato

Gwn o'r gorau, cyn dechrau cyfri,
lle caf i di'n cwato:
tu ôl i'r sofffa
yn dy 'ogof' deirblwydd,
neu efallai'r tro hwn
yn lwmpyn rhwydd o amlwg
dan flanced ar lin dy dad-cu.

Gallaf glywed y giglan,
dy biffian chwerthin,
ond daw'r 'BŴ!' mawr
wrth dy ffindo
yn sioc bob tro i ni'n dwy.

Mam

Mae pethau'n dechrau chwarae mig â Mam,
yn symud o'u lle, yn gwrthod
cael eu canfod.

Dyw'r ffôn ddim yn ei chrud,
na'i ffon ar bwys y drws,
ac i ble'n y byd aeth ei sbectol?
Am declyn y teledu, peidiwch holi –
mae wedi diflannu'n llwyr ...

Wrth iddi hwyrhau, mae'n anghofio
am y chwilio, ac yn ffwdanu
ei ffordd trwy'r ffrij am damaid i'w the,
yn shyfflan cynnwys y silffoedd –
a wele'r ffôn yn eiste'n dwt
tu ôl i becyn hanner pwys o gaws
(a hwnnw wedi llwydo'n dost).

Mae'n synnu pan gaf i hyd i'w sbectol
dan y sinc, a llwyddo
i dynnu teclyn y teledu
o ddyfnder cefn y sofffa.
Ond dal i gwato'n benderfynol
mae ei ffon –
er imi gyfri'n dawel i ddeg ar ôl deg;
ac wrth gael fy hebrwng
at y drws, a ffarwelio,
teimlaf ei phwysau arna' i'n drwm.

Mam ar goll

Mae Mam ar goll.

Dyw hi ddim yn pegio ma's
ei balchder llond y lein
o ddillad glân ar fore braf,
nac yn gweithio batsh
o bice bach i de;
segur yw ei gweill a'i gwlân,
ar lawr, a gallaf weld
na fu fawr o fynd ers sbel
ar y posau-croes.

O'i chael hi eto – o flaen y bocs
neu yn y gwely ganol pnawn –
mae'n ceisio esgusodion parod
am bob segurdod;
ond poen calon i mi bellach
yw canfod Mam
yn ddieithryn cyson
yn ei chroen ei hun.

'Ble mae dy fami di?'

Dere, Moli, dal fy llaw yn dynn
a dangosaf i ti ble i ffindo Nana.

Mae i'w chlywed yn fy chwerthin;
dyma hi yn y gusan hon,
a'n cwtsh ar ddiwedd dydd;
mae hi yma'n gyson yn alaw'r gân
sydd ar fy ngwefusau,
yn fy ngwên wrth dy warchod –
ac yn y pant od 'ma yn y sofffa!
Mae hi yn fy stôr gudd o losin
yn nrâr y gegin, a bydd wedyn
yn y blas ar ein swper.
Mae hi yma, yng nglas fy llygaid
a'm penllwydni,
a'm dagrau distaw ...

Paid holi mwy ...

Dere, Moli, rwy am chwarae cwato:
cer di i guddio gynta'
ac fe chwilia' i amdanat –
wedi i mi gyfri'n dawel i ddeg.